COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB YMLAEN DYDD GWENER, 23 IONAWR 2026 YN 10:00

Presennol

Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | S Easterbrook |

Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | RM James | W J Kendall | M Lewis |
| R Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D M Hughes a/ac P W Jenkins

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Sophie Moore | Rheolwr Grŵp – Atal a Lles |
| Scott Rolfe | Prif Weithredwr – Hamdden Halo Leisure |
| Adrian Ballington | Pennaeth Datblygu a Phartneriaethau – Greenwich Leisure Limted |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) - DYDD GWENER, 23 IONAWR 2026**

Datganiadau o Fuddiannau

R Williams - Personol – Eitem 4 - Cwsmer Halo Leisure
S J Bletsoe - Personol – Eitem 6 - Yn gyflogedig yn y sector rhentu preifat (dylid cyfeirio at y sector rhentu preifat a lwfans tai lleol)

## 56. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles dyddiedig 6 Tachwedd 2025 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Ionawr 2026 |

## 57. Partneriaeth Byw'n Iach - Model Asiantaeth

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, fod y Pwyllgor yn gwneud yr argymhelliad a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhelliad**<br><br>1. Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd buddsoddiad hirdymor i gynnal cyfleusterau hamdden ac **argymhellodd** fod Strategaeth Asedau yn cael ei datblygu, gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf tymor hwy.<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol**<br><br>2. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y risg o her gaffael yn deillio o addasiad i delerau'r contract os gweithredir y Model Asiantaeth; **gofynnwyd** am weld y cyngor cyfreithiol indemnedig pellach a ddarperir i'r Cabinet pan ofynnir iddo gytuno i'r Model Asiantaeth gael ei fabwysiadu, a **gofynnwyd** am Friffio Cyfrinachol i'r Aelodau i roi sicrwydd ynghylch y risg o her.<br>Cydnabu'r Pwyllgor mai cyfrifoldeb y Cabinet yw archwilio'r risg ymhellach yn dilyn y cyngor cyfreithiol pellach a **gofynnwyd** bod y Cabinet yn ystyried y pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor yn |

| | |
|---|---|
| | ei drafodaethau.<br><br>3. **Gofynnodd** y Pwyllgor am linell amser o gerrig milltir ar gyfer gweithredu'r Model Asiantaeth hyd at Ebrill 2027.<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor am werth ad-daliadau blaenorol gan CThEM sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau hamdden ac ar gyfer pa flynyddoedd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Ionawr 2026 |

## 58. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 2025-26

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi ystyried cynnwys adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 2025–26, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 2025–26 a'r Traciwr Rheoleiddiol a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 2 2025–26 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor; rhoddodd sylw i'r dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor a gwnaeth yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>5. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch diffyg targed ynghylch lefelau salwch ac **argymhellodd** fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i osod targed i sefydlu a ellir gwella arferion gwaith ac i sicrhau'r gefnogaeth orau ar gyfer lles staff.<br><br>6. Gan gyfeirio at Ddangosydd Perfformiad CED70, mynegodd y Pwyllgor bryder, er bod canran y cwynion a gaewyd o fewn amserlenni wedi gwella o'r un cyfnod y llynedd, ei bod wedi gostwng o'r safle ar ddiwedd y flwyddyn a'i bod ymhell o'r targed o 80% ac **argymhellodd** fod y mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w ystyried ymhellach. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Ionawr 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 59. Adroddiad Diweddaru'r Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, wedi nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, wedi nodi y byddai'r Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth a gwnaeth yr argymhelliad canlynol:<br><br>7. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch prydlondeb yr ymatebion i'w Hargymhellion a'u Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol, gan dynnu sylw at y ffaith bod hyn yn ymddangos yn broblem ar draws llawer o Bwyllgorau a mynegodd rwystredigaeth ynghylch faint oedd angen mynd ar ôl ymateb. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod y mater yn cael ei gyfeirio at y Prif Weithredwr i'w ymateb a bod ei argymhelliad hefyd yn cael ei ddwyn i sylw Cadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Ionawr 2026 |

## 60. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Ionawr 2026 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:36.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**